

## CYFFES FFYDD

### 40. Am ufudd-dod i'r Llywodraeth wladol.

Y mae Duw, Penllywydd a Brenin yr holl fyd (a), wedi trefnu brenhinoedd, a rhai mewn goruchafiaeth, i fod dano ef, yn llywodraethu dynion, er ei ogoniant ef, a lles cyffredinol y bobl (b). Ac y mae efe yn eu gwisgo ag awdurdod i fod yn ofn i weithredwyr drwg, ac i ddial arnynt pan y byddo raid, ac i fod er calonddid ac amddiffyniad i weithredwyr daioni (c).

Y mae yn ddyledus ar yr holl ddeiliaid eu parchu, eu hanrhydeddu, ufuddhau iddynt yn mhob peth ag a fyddo yn unol â gair Duw (d), gweddïo a diolch drostynt, parchu eu cyfreithiau, ac ufuddhau iddynt, a thalu treth a theyrnged a ofynnir ganddynt, heb rwgnach, darnguddio, na'u twyllo mewn dim (e). Dylem olygu ein rhwymau i barchu y brenin ac ufuddhau iddo, yn cyfodi oddi ar ordinhad ac awdurdod Duw, gweinidog yr hwn yw y brenin, ac nid oddi ar rinweddau moesol yn y llywydd (f).

### ***40. Of Obedience to the Civil Government.***

*God, the Supreme Ruler and King of all the world (a), has ordained kings and all that are in authority to be, under him, rulers of men, for his own glory, and the common weal of the people (b). He also invests them with authority, to be a terror to evil doers, and, when necessary, to execute wrath upon them. They are also sent by him for the praise and protection of them that do well (c). It is the duty of all the subjects to reverence and honour them; to obey them in all things that are in accordance with the word of God (d); to pray and give thanks for them, to honour and obey their laws, to pay whatever tax or tribute they impose, without murmur,*

*concealment or fraud (e). We should consider our duty to honour and obey the king to rest upon the ordinance and authority of God, whose minister he is, and not upon the king's personal virtues (f).*

**(a) Salm/Psa. 47:2, 95:3, 103:19; Dan .4:34-37; Jer. 10:10; Diar./Prov. 8:15-16.**

**(b) Rhuf./Rom. 13:1,2,4; Salm/Psa. 21:5, 82:3-4, 138:4-5; Eseia/Isa. 49:23; Dat.Rev. 21:24; Esra/Ezra 7:27.**

**(c) Rhuf./Rom. 13:3-4; 1 Pedr/1 Peter 2:13-14.**

**(d) Rhuf./Rom. 13:1 gwêl/ see (b); 1 Pedr/1 Peter 2:13-17 gwêl/ see (c); Titus 3:1; 2 Pedr/2 Peter 2:10; Jwd./Jude: 8,9.**

**(e) 1 Tim. 2:1-2; Esra/Ezra 6:10; Salm/Psa. 20: (gwêl Luther ar y Salm hon[arg.1900]), 72:1; Diar.Prov. 24:21; Exod. 8:9; Jer. 29:7; Rhuf./Rom. 13:6-7.**

**(f) Rhuf./Rom. 13:4,6; 1 Pedr/1 Peter 2:13-17 gwêl/see (c); Titus 3:1-2 gwel/see (d).**